

Canllawiau ar y Cyfarwyddyd Hysbysu

CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (HYSBYSU) (GLO A PHETROLEWM) (CYMRU)
2018

Cynulleidfa

Prif Swyddogion Cynllunio Awdurdodau Lleol; Busnesau; Asiantau'r Llywodraeth; Grwpiau Eraill yn y Sector Cyhoeddus; Cyrff Proffesiynol a Grwpiau â Buddiant; Grwpiau Gwirfoddol a'r cyhoedd.

Trosolwg

Mae'r canllawiau a'r cyfarwyddyd yma'n pennu gofynion newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio ceisiadau cynllunio arbennig at Weinidogion Cymru, er mwyn eu galluogi i benderfynu a ydynt yn dymuno galw'r cais i mewn er mwyn gwneud penderfyniad yn ei gylch.

Camau gofynnol

O 5 Rhagfyr 2018 dylai awdurdodau cynllunio lleol fod yn ymwybodol:

Bod y cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau cynllunio ar gyfer "ENW" gael eu cyfeirio at Weinidogion Cymru, pan nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu eu gwrthod.

Gwybodaeth Bellach

Y Gangen Rheoli Datblygu

Yr Is-adran Gynllunio

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

Rhif ffôn: 03000 256709

Cyfeiriad e-bost: planning.directorate@wales.gsi.gov.uk

Copiâu ychwanegol

Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://gov.wales/topics/planning/policy/dear-cpo-letters/?skip=1&lang=cy>

Cynnwys

Cyflwyniad

Cyd-destun y Cyfarwyddyd Newydd

Cychwyn a Rhychwant

Y Cyfarwyddyd

Pwrpas a Chwmpas

Cyflwyno Gwybodaeth i Weinidogion Cymru

Cyfyngu ar Roi Caniatâd Cynllunio

Monitro ac Adolygu

**Atodiad 1 – CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLADA THREF (HYSBYSU) (GLO A PHETROLEWM)
(CYMRU) 2018**

CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (HYSBYSU) (GLO A PHETROLEWM) (CYMRU) 2018

CYFLWYNIAD

1. Mae Adran 77 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (“Deddf 1990”) yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau am ganiatâd cynllunio, neu am gymeradwyaeth unrhyw awdurdod cynllunio lleol y mae’n ofynnol ei chael dan orchymyn datblygu, gael eu cyfeirio atynt hwy yn hytrach na bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch.
 2. Mae Erthygl 18(1) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/801) (y “DMPO”) yn nodi y gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau sy’n cyfyngu ar y caniatâd cynllunio a roddir gan Awdurdod Cynllunio Lleol, naill ai am gyfnod amhenodol neu yn ystod y cyfnod a nodir yn y cyfarwyddiadau, mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad neu mewn perthynas ag unrhyw ddsbarth a nodir. Yn unol ag erthygl 18(3), rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau y maent yn berthnasol i gyfarwyddyd o’r fath mewn modd a fydd yn rhoi’r cyfarwyddyd mewn grym.
 3. Mae Erthygl 22(5) y DMPO yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol gyflwyno gwybodaeth am geisiadau a wneir dan erthygl 4 a 5 y Gorchymyn hwnnw (ceisiadau am ganiatâd ar gyfer mater a gedwir yn ôl a cheisiadau am ganiatâd cynllunio, yn ôl eu trefn), yn cynnwys gwybodaeth am y modd yr ymdriniwyd ag unrhyw gais o’r fath, fel y bydd yn ofynnol yn ôl cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru. Fe allai unrhyw gyfarwyddyd o’r fath gynnwys darpariaeth yn ymwneud â’r bobl y dylid eu hysbysu a’r modd y dylid darparu’r wybodaeth.
 4. Nodir CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (HYSBYSU) (GLO A PHETROLEWM) (CYMRU) 2018 yn Atodiad 1.
 5. Yn ôl yr hysbysiad, pan nad yw awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwrthwynebu cais ar gyfer cais i ddatblygu petrolewm neu ddatblygu glo, mae’n ofynnol hysbysu Gweinidogion Cymru. Bydd yr hysbysiad newydd yn ymgorffori cynnwys yr hysbysiadau cyfredol ynghylch datblygu olew a nwy anghonfensiynol a datblygu nwyeddio glo tanddaearol.
- Pan fo’n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad o’r fath i Weinidogion Cymru, ni ddylai’r awdurdod roi caniatâd cynllunio i’r cais hyd nes y daw’r cyfnod 21 diwrnod i ben, sy’n cychwyn ar y dyddiad y dywed Gweinidogion Cymru wrth yr awdurdod yn ysgrifenedig yw’r dyddiad pan gawsant wybodaeth a nodir yn y Cyfarwyddyd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i’r awdurdod cynllunio lleol fwrw ymlaen i wneud penderfyniad ynghylch y cais pe bai Gweinidogion Cymru, cyn i’r cyfnod 21 diwrnod ddod i ben, yn hysbysu’r awdurdod nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu galw’r cais dan sylw i mewn

dan adran 77 Deddf 1990 mewn perthynas â'r cais hwnnw, neu pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r datblygiad ar gyfer datblygu petrolewm neu ddatblygu glo.

6. Bwriad y canllawiau hyn yw sicrhau mai dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol y caiff Gweinidogion Cymru eu hysbysu, a bod pob penderfyniad yn cael ei wneud ar y lefel briodol.

CYD-DESTUN Y CYFARWYDDYD NEWYDD

7. Er mwyn ategu Polisi Cynllunio Cymru 10 a'r Datganiad Ysgrifenedig ar yr ymgynghoriad Trwyddedu Petrolewm, a gyhoeddir yn fuan, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig wedi gofyn i'r Cyfarwyddiadau Hysbysu cyfredol, yn ymwneud ag olew a nwy anghonfensiynol, gael eu disodli. Y bwriad yw ymgorffori'r Cyfarwyddiadau Hysbysu a'u hehangu ar gyfer unrhyw gais i ddatblygu petrolewm neu ddatblygu glo.

8. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ystyried a oes craffu priodol wedi'i wneud ar bryderon amgylcheddol a phryderon yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, oherwydd fe allai'r rhain godi materion pwysig sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ardal leol. Efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn dewis galw'r cais cynllunio i mewn neu, pe bai hynny'n briodol, efallai y byddant yn cyhoeddi cyfarwyddyd yn nodi na ellir cymeradwyo'r cais hyd nes y ceir cyfarwyddyd i'r perwyl hwnnw gan Weinidogion Cymru.

CYCHWYN A RHYCHWANT

9. Mewn grym o <ANGEN YCHWANEGU DYDDIAD>, mae'r canllawiau a gynhwysir yn y cylchlythyr hwn a'r cyfarwyddyd yn Atodiad 1 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio sy'n cael ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu petrolewm neu ddatblygu glo, hysbysu Gweinidogion Cymru.

10. Mae'r Cyfarwyddyd Hysbysu yn ymdrin â Phetrolewm fel y'i diffinnir yn Neddf Petrolewm 1998. Mae'r diffiniad o betrolewm yn cynnwys unrhyw olew mwynol neu hydrocarbon cysylltiedig, a nwy naturiol sydd i'w gael yn ei strata naturiol. Felly, mae'n cynnwys olew a nwy siâl a methan haenau glo. Caiff y diffiniad o lo ei gymryd o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994. Mae hwn yn ymdrin â glo a hefyd nweiddio glo tanddaearol.

11. Dim ond i Gymru y mae'r canllawiau hyn a'r Cyfarwyddyd yn Atodiad 1 yn berthnasol.

Y CYFARWYDDYD

11. Nid yw'r Cyfarwyddyd yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru dan adran 77 Deddf 1990 i gyfarwyddo y dylid galw i mewn unrhyw gais cynllunio arbennig er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad yn ei gylch, pa un a yw'n berthnasol i delerau'r cyfarwyddyd newydd ai peidio, mewn perthynas â'u polisi ynghylch galw ceisiadau i mewn.

PWRPAS A CHWMPAS

12. Mae'r Cyfarwyddyd newydd yn egluro'r trefniadau a'r meini prawf ar gyfer hysbysu Gweinidogion Cymru mewn perthynas â cheisiadau cynllunio. Pan na fo awdurdodau cynllunio'n bwriadu gwrthod cais am gais i ddatblygu petrolewm neu ddatblygu glo, rhaid iddynt hysbysu Gweinidogion Cymru.

13. Pwrpas y Cyfarwyddyd yw rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ystyried a ydynt am arfer eu pwerau i alw ceisiadau i mewn dan adran 77 Deddf 1990.

GOFYNION HYSBYSU

14. Mae paragraff (RHIF) y Cyfarwyddyd yn cyflwyno gofyniad hysbysu sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio ceisiadau'n ymwneud â datblygu petrolewm neu lo at Weinidogion Cymru, pan nad yw'r awdurdod yn bwriadu gwrthod ceisiadau o'r fath. Efallai y bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei hanfon at Weinidogion Cymru yn electronig, neu ar ffurf copi caled. Mae'r gofyniad hysbysu'n cynnwys yr angen i gyflwyno'r wybodaeth a nodir ym mharagraff 5 y Cyfarwyddyd.

CYFYNGU AR ROI CANIATÂD CYNLLUNIO

15. Pan fo'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, mae paragraff 6 y Cyfarwyddyd yn gosod cyfyngiad ar roi caniatâd cynllunio am gyfnod o 21 diwrnod, gyda'r dyddiad hwnnw'n cychwyn ar y dyddiad y caiff yr awdurdod cynllunio'i hysbysu'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru fel y dyddiad y cafodd yr wybodaeth a nodir ym mharagraff 5 y Cyfarwyddyd ei derbyn.

16. Fodd bynnag, mae paragraff 7 y Cyfarwyddyd yn caniatáu i'r awdurdod fwrw ymlaen i wneud penderfyniad ynghylch y cais cyn i'r cyfod 21 diwrnod ddod i ben mewn amgylchiadau pan fydd yr awdurdod wedi cael ei hysbysu'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru nad ydynt yn bwriadu galw'r cais i mewn, neu pan nad ydynt yn ystyried y datblygiad fel datblygiad petrolewm neu lo.

MONITRO AC ADOLYGU

17. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'n ofalus nifer y ceisiadau a gaiff eu cyfeirio at Weinidogion Cymru yn sgil y gofyniad hysbysu hwn, ynghyd â nifer y ceisiadau a gaiff eu galw i mewn o ganlyniad i hynny. Bydd yr effeithiau'n cael eu hadolygu ar ôl i'r Cyfarwyddyd newydd fod ar waith am gyfnod priodol.

Neil Hemington

Prif Gynllunydd

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Atodiad 1 Y Cyfarwyddyd:

Testun cyfreithiol: